



Llŷr Gruffydd
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru

11 Awst 2020

Annwyl Llŷr,

Er mwyn cefnogi'r blaengynllunio ariannol ar gyfer cyrff a ariennir yn uniongyrchol, cytunais y llynedd i ysgrifennu ar yr adeg hon o'r flwyddyn yn nodi gwahanol ffactorau i lywio cynllunio cyllidebol yn y dyfodol gan gynnwys asesiad gorau'r Llywodraeth o lefel y cyllid a fydd ar gael yn y blynyddoedd i ddod.

Mae'r rhagolygon cyllidol a chyllidebol yn arbennig o ansicr ar hyn o bryd. Senario diweddaraf y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer cyllid cyhoeddus y DU, a gyhoeddwyd yn ei Adroddiad Cynaliadwyedd Cyllidol ym mis Gorffennaf, yn rhoi'r diffyg yn 2020-21 yn £372 biliwn (gan gynnwys y cyhoeddiadau yn Niweddariad Economaidd y Canghellor ar gyfer yr Haf). Mae hyn yn cymharu â'i rhagolwg o £55 biliwn ym mis Mawrth. Disgwylir bellach i'r diffyg aros uwchlaw £100 biliwn tan ganol y degawd.

Gan droi at ein cynlluniau ein hunain, ers pennu manylion terfynol y gyllideb ar gyfer y flwyddyn gyfredol, mae Llywodraeth Cymru wedi cael swm ychwanegol o £4 biliwn i ariannu ei hymateb i bandemig y coronafeirws. Nid dyma'r sefyllfa derfynol ar gyfer 2020-21 o reidrwydd, gyda'r gyllideb yn dal yn ddarostyngedig i newidiadau pellach a sylweddol o bosibl, yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Mae graddfa'r newidiadau hyn ac effaith cyffredinol y pandemig ar gyllid cyhoeddus y DU yn ei gwneud yn anodd iawn darparu asesiad cyffredinol o gyllid ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu cyhoeddi canlyniad ei Hadolygiad Cynhwysfawr o Wariant yn yr hydref, gan gwmpasu 2021-22 i 2023-24 ar gyfer gwariant adnoddau a 2021-22 i 2024-25 ar gyfer gwario cyfalaf. Cyn hynny, ni fydd gennym unrhyw gynlluniau cadarn i seilio cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer y blynyddoedd i ddod arnynt.

Ni nododd Canghellor y Trysorlys amlen wario gyffredinol pan lansiodd yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant ar 21 Gorffennaf, oherwydd ansicrwydd digynsail. Mae hyn yn awgrymu nad yw'r cynlluniau a nodwyd yng Nghyllideb Mawrth yn cynnig canllaw dibynadwy ar gyfer hynt gwario cyhoeddus yn y DU yn y dyfodol. O gofio'r codiadau sylweddol iawn yn ein grant bloc eleni, mae'n debygol iawn y gwelwn ostyngiad yn 2021-22. Bydd graddfa'r gostyngiad hwnnw'n dibynnu ar hynt y pandemig yn y dyfodol ac ymateb Llywodraeth y DU ato o ran polisi cyllidol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.


We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae cryn ansicrwydd hefyd ynghylch effaith y trethi datganoledig a lleol ar Gyllideb Llywodraeth Cymru dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Mae'n debygol y bydd gostyngiadau sylweddol a pharhaus mewn refeniw yn y flwyddyn bresennol a'r tu hwnt. Mae'r fframwaith cyllidol yn rhoi amddiffyniad rhag sioc economaidd ledled y DU a fydd yn gwrthbwysu rhai o'r gostyngiadau hyn. Er hynny, mae'n rhy gynnar dweud a fydd gan y sefyllfa economaidd bresennol effaith gymharol fwy neu lai ar refeniw yng Nghymru nag mewn mannau eraill.

Gan droi at brisiau a thâl, mae senario canolog y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn ei Hadroddiad Cynaliadwyedd Cyllidol yn dangos y datchwyddydd GDP yn cynyddu 2.6% yn y flwyddyn ariannol bresennol a 0.1% yn 2021-22, cyn dychwelyd i ryw 2% y flwyddyn y tu hwnt i hynny. Mae enillion cyfartalog y DU yn y senario hwnnw yn gostwng 0.1% yn y flwyddyn ariannol bresennol gyda thwf yn adfer i 4.2% y flwyddyn nesaf. Er bod tâl y sector cyhoeddus wedi'i ddatganoli, mae'n werth nodi o hyd sylwadau'r Canghellor ochr yn ochr â lansio'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant ynghylch arfer gofal yn nyfarniadau'r sector cyhoeddus yn y dyfodol, gan gymryd y sefyllfa economaidd ehangach i ystyriaeth. Gallai hyn fod â goblygiadau ar gyfer cyllidebau adrannol Llywodraeth y DU ac felly ar ein grant bloc. Gofynnwyd i adrannau Llywodraeth y DU nodi arbedion yn eu paratodau ar gyfer yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant.

Mae hwn yn amser heriol iawn i gynllunio cyllidebau ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Byddaf yn rhoi gwybodaeth wedi'i ddiweddarau i'r Pwyllgor pan fydd ar gael cyn i'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant gael ei gyhoeddi. Beth bynnag fo canlyniad yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant, ein canolbwynt o hyd yw sefydlogi ein heconomi a'n gwasanaethau cyhoeddus ac ail-greu yn sgil pandemig y coronafeirws.

Yn gywir,



Rebecca Evans AS/MS
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd